**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 18fed Rhagfyr 2002**
**Eitem: 2**

# DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
# CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL) GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW
# DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991
# RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994
# DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH) 1990

# CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

**Nid yw'r atodiad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad ar gael yn Gymraeg ac mae hynny yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD –18 RHAGFYR 2002**
**EITEM RHIF 3(i)**

# ADRODDIAD GORFODAETH CYNLLUNIO

**CYFEIRNOD:** ENF/2002/00026

**LLEOLIAD:** Bodfari Charcoal, (Rhif Lleiniau AO 2958 a 3256), The Caravan Site, The Warren, Ffordd yr Wyddgrug, Bodfari, Dinbych

**TRAMGWYDDIAD:**
(i) Newid defnydd tir i ddefnydd sui generis gan gynnwys mewnforio a chadw coed, llosgi golosg, paratoi coed ar gyfer manwerthu a defnyddiau eraill yn gysylltiedig â iard goed.
(ii) Newid defnydd tir drwy osod dwy uned garafán sefydlog yn gysylltiedig ag (i) uchod.
(iii) Datblygiad gweithredol di awdurdod, gan gynnwys newid lefelau tir, creu man aros caled a chlawdd pridd.

**CYFYNGIADAU:** AHNE Bryniau Clwyd

## CANLLAWIAU A PHOLISïAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

CYNLLUN DATBLYGU UNEDOL SIR DDINBYCH (Mabwysiadwyd 3 Gorffennaf 2002)
Polisi GEN 3 Datblygiad Tu Allan i Ffiniau Datblygu
Polisi GEN 6 Anghenion Rheoli Datblygu
Polisi ENV 2 Datblygiad yn Effeithio ar AHNE
Polisi EMP 1 Halogiad
Polisi EMP 5 Datblygiad yn Cyflogi ar Raddfa Fechan y Tu Allan i Ffin Datblygu
Polisi TRA 6 Effaith Datblygiad Newydd ar Llif Traffig

CANLLAWIAU'R LLYWODRAETH
Polisi Cynllunio ar gyfer Cymru – Mawrth 2002
Nodyn Arweiniad Technegol (Cymru) 9 : Gorfodaeth Rheoli Cynllunio

**YSTYRIAETHAU HAWLIAU DYNOL**
Ers Hydref 2000, talwyd sylw i ddarpariaethau'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998 wrth ystyried dwyn achos gorfodaeth yn erbyn defnydd anawdurdodedig o dir. Yn yr achos hwn, mae'r materion dan ystyriaeth yn benodol ynghylch hawliau'r perchennog i ddefnyddio'r tir i ddatblygu ac eangu ei fusnes coedwigaeth a hawliau'r Cyngor i weithredu ar ei bolisïau i amddiffyn cymeriad ac edrychiad Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, ymysg pethau eraill. Yn yr achos hwn, mae trydydd partïon hefyd wedi gwrthwynebu'r gweithgareddau ar y safle a gellid ystyried llawer o seiliau eu gwrthwynebiadau yn amhariad ar eu hawliau dynol.

Fodd bynnag, nid yw perchennog y tir wedi codi unrhyw fater hawliau dynol penodol, nac unrhyw un arall chwaith gyda diddordeb yn y mater.

## 1. GWYBODAETH GEFNDIR

1.1 Ym mis Hydref 2001 daeth i sylw Swyddogion y bu dwysâd yn nefnydd presennol y cae amaethyddol hwn ar gyfer coedwigaeth. Ymchwiliwyd i'r mater gan Swyddogion a

oedd yn bryderus na ellid bellach ddisgrifio lefel y gweithgarwch fel defnydd coedwigaeth gyda pheth gweithgaredd atodol / achlysurol.

1.2 Cludir coed erbyn hyn i'r safle ac felly nid yw ei defnydd yn ddibynnol ar goed o'r goedlan gyfagos. Ni ellir bellach ddisgrifio lefel y gweithgaredd ar y safle, gan gynnwys cynhyrchu golosg, fel defnydd atodol i gynnal a hwsmona'r goedlan gerllaw.

1.3 Disgrifiodd perchennog y safle sut y mae'n bwriadu eangu'r busnes ymhellach drwy godi clawdd pridd o amgylch y man gwaith, creu man aros caled a chyflwyno gweithgareddau pellach megis darpariaethau addysgol a hyfforddi yn seiliedig ar y goedlan a digwyddiadau.

1.4 Cynghorwyd y perchennog fod angen caniatâd cynllunio ar gyfer y lefel o weithgaredd a oedd ar y safle yr adeg hynny ac y dylai unrhyw gais gyfeirio at y gwahanol ddefnydd a gweithgareddau y bwriedir eu cyflwyno ar y safle.

1.5 Cyflwynwyd y cais hwn erbyn hyn dan Gyfeirnod 41/2002/0808/PC a bu'n destun ymarferiad ymgynghori gyda'r gymuned leol ac o ganlyniad derbyniwyd sawl cynrychiolaeth ar sail cynllunio'n gwrthwynebu'r defnydd.

1.6 Adroddir ar y cais ar yr agenda hon o dan "Ceisiadau am Ganiatâd i Ddatblygu". Mae'r adroddiad yn argymell gwrthod caniatâd cynllunio.

1.7 Pe byddai'r Aelodau'n cytuno gyda'r argymhelliad, yna, gan fod y defnydd cymysg yn parhau, gofynnir am hawl i gyflwyno Rhybudd Gorfodaeth i atal y defnydd a chlirio pob dim cysylltiedig oddi ar y tir, gan gynnwys y clawdd pridd, carafannau sefydlog, man aros caled, darpariaethau llosgi golosg, peiriannau torri ayb.

## 2. RHESYMAU DROS GYFLWYNO RHYBUDD GORFODAETH

2.1 Dechreuodd defnydd anawdurdodedig y tir yn ystod y 10 mlynedd diwethaf a'r datblygiad gweithredol yn ystod y 4 mlynedd diwethaf.

2.2 Mae'r safle y tu allan i'r anheddle agosaf a'r tu mewn i Ardal Bryniau Clwyd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae'r defnydd a'r datblygiad gweithredol cysylltiol, oherwydd eu graddfa, eu lleoliad amlwg yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, yn groes i brif amcan cynllunio'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gan eu bod yn amharu ar harddwch naturiol yr ardal a chymeriad ac edrychiad y tirlun.

2.3 Arweiniodd natur a graddfa'r gweithgareddau, a'r datblygiad gweithredol ar y safle sy'n agos at eiddo preswyl gerllaw, Glasgoed, ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, at golled mwynderau annerbyniol i breswylydd yr eiddo hwnnw.

2.4 Mae'r safle mewn ardal wledig, a unig ffordd ati yw ar hyd priffordd un lon heb unrhyw fannau pasio a chyda chyffordd is safonol gyda'r A5411. Byddai math a natur y defnyddiau i'w cludo i ac o'r safle a maint ac amlder y cerbydau a fyddai'n debyg o ymweld â'r safle yn debygol, ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, o arwain at wrthdaro posibl rhwng cerbydau'n defnyddio'r briffordd ac yn niweidiol i ddiogelwch y ffordd.

2.5 Mae defnydd anawdurdodedig, felly, yn groes i bolisïau GEN 3, GEN 6, ENV 2, a TRA 6 o Gynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych a rhannau perthnasol o'r Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol, Polisi Cynllunio ar Gyfer Cymru: 2002.

2.6 Ni fyddai defnydd o amodau cynllunio fel rhan o unrhyw ganiatâd cynllunio i gadw'r defnydd anawdurdodedig yn ddigonol i oresgyn y rhesymau hyn.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Awdurdodi'r canlynol:

(i) Cyflwyno Rhybudd Gorfodaeth i sicrhau atal y defnydd anawdurdodedig, clirio pob peth cysylltiedig oddi ar y tir a'i adfer i'w gyflwr a'i edrychiad blaenorol.

(ii) Cychwyn ar drefniadau erlyn, neu weithgaredd arall addas, dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn unigolyn neu unigolion y cyflwynwyd y Rhybudd Gorfodaeth neu Rybudd arall tebyg iddynt neu y bydd achos cyfreithiol yn cael eu dwyn yn eu herbyn os nad ydynt yn cydymffurfio gyda gofynion y Gorchymyn.

**CYFARFOD PWYLLGOR**
**CYNLLUNIO –18 RHAGFYR 2002**
**EITEM RHIF 3(ii)**

# ADRODDIAD GORFODI CYNLLUNIO

| | |
|---|---|
| **CYFEIRNOD:** | ENF/2002/00043 |
| **LLEOLIAD:** | Hen Dir Rheilffordd yn Gyfagos i Feithrinfeydd Aberchwiler, Ffordd Yr Wyddgrug, Bodfari, Dinbych |
| **TROSEDD:** | Defnyddio tir ar gyfer storio pethau cofiadwy rheilffyrdd ac eitemau cysylltiedig |
| **CYFYNGIADAU:** | AHNE Bryniau Clwyd |

## POLISÏAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

CYNLLUN DATBLYGU UNEDOL SIR DDINBYCH (Mabwysiadwyd 3 Gorffennaf 2002)

| | |
|---|---|
| Polisi GEN 6 | Gofynion Rheoli Datblygu |
| Polisi GEN 3 | Datblygu y Tu Allan i Ffiniau Datblygu |
| Polisi ENV 2 | Datblygu sy'n Effeithio ar yr AHNE |
| Polisi EMP 1 | Llygredd |
| Polisi TRA 6 | Effaith Datblygu Newydd ar Lif Traffig |
| Polisi TRA 10 | Hawliau Tramwy Cyhoeddus |

CANLLAWIAU'R LLYWODRAETH
Polisi Cynllunio Cymru – Mawrth 2002
TAN (Wales) 9 : Gorfodi Rheolaeth Gynllunio
TAN (Wales) 18 : Cludiant

YSTYRIAETHAU HAWLIAU DYNOL

O fis Hydref 2000 cymerir darpariaethau'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998 i ystyriaeth wrth ystyried cymryd camau gorfodi yn erbyn datblygu tir yn ddiawdurdod. Yn yr achos hwn, mae'r materion sydd dan ystyriaeth yn benodol i hawliau'r perchennog i ddefnyddio'r tir i storio eitemau'n gysylltiedig â rheilffyrdd a hawliau'r Cyngor i weithredu ei bolisïau, sy'n ceisio diogelu cymeriad a golwg yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ymhlith pethau eraill. Yn yr achos hwn, mae pobl eraill wedi gwrthwynebu'r gweithgareddau ar y safle hefyd a gellid ystyried llawer o'r rhesymau dros wrthwynebu yn dresmasiad ar eu hawliau dynol.

Nid oes unrhyw faterion hawliau dynol penodol wedi'u codi, fodd bynnag, gan berchennog y tir neu gan unrhyw un cyfrannog arall yn y mater hwn.

## 1. GWYBODAETH GEFNDIR

1.1 Ym mis Medi 2001, fe ddaeth i sylw Swyddogion bod offer yn gysylltiedig â rheilffyrdd, megis trac, cerbydau ayb., yn cael eu storio mewn cae agored ar dir y tu ôl i Feithrinfeydd Aberchwiler, Bodfari. Saif y safle o fewn yr AHNE.

1.2 Ymchwiliwyd i'r mater ac fe ddadlennwyd bod y tir yn eiddo i Ysgrifennydd Cymdeithas Reilffordd Dinbych a Chyffordd Yr Wyddgrug. Dadleuwyd o ran y Gymdeithas bod y safle'n cynnwys rhan o hen Reilffordd Dinbych i'r Wyddgrug ac mai bwriad y Gymdeithas oedd cychwyn prosiect tymor hir i adfer y rheilffordd.

1.3 Cynhaliwyd trafodaethau rhwng Swyddogion a chynrychiolwyr y Gymdeithas. Yn y diwedd, cytunodd y Gymdeithas i gyflwyno cais cynllunio i gadw'r defnydd storio hyd nes oeddynt mewn gwell sefyllfa i fynd ar drywydd adfer darn arwyddocaol o'r rheilffordd fan leiaf.

1.4 Mae'r cais hwnnw wedi'i gyflwyno'n awr dan Gyfeirnod 09/2002/1099/PC a bu'n destun ymarferiad ymgynghori gyda'r gymuned leol sydd wedi arwain at dderbyn amryw o sylwadau wedi'u seilio ar gynllunio sy'n gwrthwynebu'r defnydd.

1.5 Rhoddir adroddiad ar y cais yn rhywle arall ar yr Agenda hon dan, "Ceisiadau am Ganiatâd i Ddatblygu". Mae'r adroddiad yn argymell bod caniatâd cynllunio i'w wrthod.

1.6 Petai'r Aelodau wedi cytuno â'r argymhelliad i wrthod caniatâd cynllunio, yna gan fod y defnydd storio yn parhau, mae angen awdurdodiad yn awr i gyflwyno Rhybudd Gorfodi i sicrhau y rhoddir y gorau i'r defnydd storio a bod yr holl eitemau sydd wedi eu storio yn cael eu symud oddi ar y tir.

## 2. RHESYMAU DROS GYFLWYNO RHYBUDD GORFODI

2.1 Mae defnydd diawdurdod y tir at ddibenion storio wedi cychwyn o fewn y 10 mlynedd diwethaf.

2.2 Saif y safle y tu allan i ffiniau datblygu yr anheddiad agosaf ac o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd. Nid yw storio eitemau yng nghefn gwlad agored yn dod o fewn unrhyw un o'r dosbarthiadau datblygu a ganiateir fel rheol y tu allan i ffiniau datblygu. Mae storio ac adfer eitemau sy'n gysylltiedig â rheilffyrdd yn groes i'r brif amcan cynllunio ar gyfer yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol drwy dynnu oddi wrth harddwch naturiol yr ardal a chymeriad a golwg y dirwedd.

2.3 Byddai storio eitemau yn y fan yma'n debygol o arwain at gynnydd o bwys ym maint y traffig sy'n ymuno â ac yn gadael yr A541 trwy gyffordd nad yw'n cynnig digon o welededd, gyda'r risg ganlyniadol o berygl ychwanegol i holl ddefnyddwyr y briffordd ac ymyrraeth â llif rhydd traffig. Yn ogystal, mae'r defnydd storio yn debygol o arwain at gynnydd ym maint y traffig sy'n troi i'r dde i mewn i'r safle mewn man ble nad oes digon o welededd at ymlaen ar gael gyda risg ganlyniadol o berygl ychwanegol i holl ddefnyddwyr y briffordd.

2.4 Bydd y defnydd storio yn mwyhau symudiad cerbydau a'r aflonyddu ar hawl tramwy cyhoeddus er anfantais i ddiogelwch a mwynhad y llwybr troed gan ddefnyddwyr eraill.

2.5 Byddai'r defnydd storio diawdurdod yn groes felly i bolisïau GEN 3, GEN 6, ENV 2, TRA 6 a TRA 10 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych a rhannau perthnasol o'r Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol, Polisi Cynllunio Cymru, 2002.

2.6 Ni fyddai defnyddio amodau cynllunio fel rhan o unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir i gadw'r defnydd storio diawdurdod yn goresgyn y rhesymau hyn.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod awdurdodiad i'w ganiatáu ar gyfer y canlynol:

(i) Cyflwyno Rhybudd Gorfodi i sicrhau y rhoddir terfyn ar y defnydd storio diawdurdod, ac y ceir gwared â'r holl eitemau wedi'u storio oddi ar y tir ac yr adferir y tir i'w gyflwr a'i olwg blaenorol.

(ii) Cychwyn achos erlyn, neu gamau priodol eraill, dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn unrhyw berson neu bobl y cyflwynir unrhyw Rybudd Gorfodi neu Rybudd arall o'r fath iddynt, neu y cymerir camau cyfreithiol yn eu herbyn petaent yn methu â chydymffurfio â'i ofynion.

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**18 RHAGFYR 2002**
**EITEM RHIF 4**

## ADRODDIAD GAN BENNAETH Y GWASANAETHAU CYNLLUNIO

# TREFNIADAU PWYLLGOR
# CYFRANOGIAD SWYDDOGION PRIFFYRDD

### 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Tra'n ystyried adroddiadau yn ddiweddar ar Gynllun Dirprwyo Gwasanaethau Cynllunio a'r Côd Ymarfer Cynllunio ar gyfer Aelodau a Swyddogion yn y Cyngor Llawn, holodd yr Aelodau a ddylai Swyddogion Priffyrdd fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio. Ni chafwyd penderfyniad ffurfiol ar y pwnc.

1.2 Er gwybodaeth i'r Aelodau, argymhellodd adroddiad ar y Cynllun Dirprwyo a threfniadau eraill a ystyriwyd gan y Pwyllgor Cynllunio a'r Cyngor Llawn ym mis Hydref a Thachwedd 2001 nad oedd yn briodol i ymgynghorai penodol fod yn bresennol mewn Pwyllgor gan y gallai hyn roddi pwysau gormodol i fater penodol pan ddylai'r Aelodau ystyried y materion cynllunio yn gyffredinol. Mae yna hefyd oblygiadau amser ac adnoddau. Cytunodd yr Aelodau gyda'r argymhelliad hwn ar y pryd.

### 2. CEFNDIR

2.1 Mae'r Pennaeth Priffyrdd yn ymgynghorai statudol ar geisiadau cynllunio sy'n delio gyda materion priffyrdd. Mae crynodeb o'r ymateb i'r ymgynghori ar hyn o bryd yn cael ei gynnwys mewn unrhyw adroddiad dan Ymatebion i Ymgynghori. Mae materion priffyrdd yn cael eu trafod yn yr adroddiad ac unrhyw amodau perthnasol neu resymau dros wrthod yn cael eu cynnwys yn yr argymhelliad.

2.2 Mae'r Pennaeth Priffyrdd wedi mynychu'r Pwyllgor Cynllunio o dro i dro. Yn hanesyddol cyfyngwyd hyn i fynychu ar faterion penodol lle mae priffyrdd yn fater pwysig e.e. Victoria Road, Llangollen. Hefyd, mynychodd gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cynllunio ar 27ain Tachwedd er nad oedd y rhaglen yn cynnwys unrhyw geisiadau yn delio gyda materion priffyrdd pwysig.

2.3 Mae adroddiadau i'r Pwyllgor Cynllunio yn cael eu paratoi gan Swyddogion Cynllunio gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ystyriaethau cynllunio perthnasol gan gynnwys ymateb y Pennaeth Priffyrdd. Tra dilynir argymhelliad y Pennaeth Priffyrdd fel rheol nid yw hyn yn digwydd bob amser oherwydd weithiau rhoddir pwysau gwahanol i ffactorau perthnasol eraill megis hanes cynllunio a hefyd y posibilrwydd o orfodi'r amodau a argymhellwyd. Rhaid i'r Pwyllgor Cynllunio fod yn ofalus nad yw'n rhoi gormod o sylw i sylwadau gan un ymgynghorai, a allai fod yr argraff os yw ymgynghorai penodol yn mynychu pwyllgorau yn rheolaidd. Gallai ymgynghorai eraill hefyd hawlio y dylent hwythau fod yn bresennol.

### 3. OPSIYNAU

3.1 Ar ôl ystyried yr uchod, ystyrir bod tri opsiwn posibl ar gael i'r Aelodau mewn perthynas â mewnbwn y Pennaeth Priffyrdd parthed ceisiadau gerbron y Pwyllgor Cynllunio, fel a ganlyn:

**1. Ymateb i ymgynghori -** i'r Pennaeth Priffyrdd gynnwys mwy o fanylion yn ei ymateb gan gynnwys y rhesymau dros dod i argymhelliad penodol. Byddai'r ymatebion manylach yna'n cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Cynllunio.

**2. Mynychu'r Pwyllgor Cynllunio o bryd i'w gilydd -** byddai presenoldeb mewn ymateb i gais penodol gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio neu Aelod i ddelio gyda materion priffyrdd yn deillio o gais penodol. Mewn perthynas â chais gan Aelod, byddai'r rhain yn cael eu cynnwys yn y cais ysgrifenedig i gyfeirio'r cais cynllunio i'r Pwyllgor Cynllunio.

**3. Mynychu pob cyfarfod Pwyllgor Cynllunio -** byddai hyn yn arwain at y Pennaeth Priffyrdd neu ei gynrychiolydd yn mynychu pob cyfarfod beth bynnag yw cynnwys y Rhaglen. Fodd bynnag, mae angen i'r Aelodau fod yn ymwybodol bod yr adroddiadau Pwyllgor yn cael eu cynhyrchu gan Swyddogion Cynllunio ac felly mater i mi neu fy nghynrychiolwyr yw ateb cwestiynau ar yr adroddiad. Byddai ond angen cyfeirio'r mater i'r Pennaeth Priffyrdd pan fo angen ymateb technegol penodol.

## 4. ARGYMHELLIAD

**4.1 Rwy'n argymell bod y Pwyllgor Cynllunio yn cymeradwyo cyfuniad o opsiynau 1 a 2, am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad uchod.**

# ADRODDIAD Y PENNAETH CYNLLUNIO

## DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE

**1. Pwrpas**

**1.1** Cynghori Aelodau am ddyddiad tebygol unrhyw Ymweliad Safle y gofynnwyd amdano gan y Pwyllgor Cynllunio.

**2. DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE**

**2.1** Ar ôl ymgynghori penderfynwyd mai **ddydd Llun, 6 Ionawr, 2003** sydd fwyaf addas. Trefnwyd y dyddiad yn amodol.

**2.2** Cynghorir chi felly y cynhelir unrhyw ymweliad safle **ddydd Llun, 6 Ionawr, 2003**

**3. AELODAETH Y PANEL YMWELIAD SAFLE**

**3.1** Bydd hyn yn dibynnu ar Gydbwysedd Gwleidyddol gan gynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor a'r Aelod(au) Lleol perthnasol.

**4. ARGYMHELLIAD**

**4.1 Bod Aelodau yn cytuno i gynnal yr Ymweliad Safle ddydd Llun, 6 Ionawr, 2003**

**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**18 RHAGFYR 2002**
**EITEM: 6**

# Penderfyniadau a wnaed gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio o dan y Pwerau a ddirprwywyd 7fed - 22ain Tachwedd 2002

## Eitem er gwybodaeth

**Dyma restr o geisiadau lle gwnaed y penderfyniad eisoes o dan bwerau dirprwyedig. Os ydych yn dymuno trafod y cais/penderfyniad, cysylltwch â'r Swyddog Achos os gwelwch yn dda.**

## MATH O BENDERFYNIAD

| | |
|---|---|
| **CANIATAU** | **caniatáu caniatâd cynllunio** |
| **CYMERADWYO** | **cymeradwyo materion neu amod a neilltuwyd** |
| **CYDSYNIO** | **rhoi caniatâd adeilad rhestredig, ardal gadwraeth neu gydsynio i hysbyseb** |
| **DIM GWRTHWYNEBIAD** | **dim gwrthwynebiad i waith ar goeden/coed mewn ardal gadwraeth** |
| **PENDERFYNU** | **penderfynu nad oes angen cymeradwyaeth o flaen llaw neu ei fod yn cael ei roi pan benderfynir ar y cais (gweithiau telecom ac amaethyddol penodol)** |
| **DAT. A GANIATEIR** | **canfyddwyd fod y cynnig yn ddatblygiad a ganiateir ar ôl derbyn y cais** |
| **TYNNU YN ÔL** | **y cais wedi'i dynnu'n ôl gan yr ymgeisydd** |
| **GWRTHOD** | **gwrthod pob math o gais** |

**Nid yw'r atodiad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad ar gael yn Gymraeg ac mae hynny yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor**